**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 2il Hydref 2002**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**CYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**2 HYDREF, 2002**

**AGENDA. 3**

**ADRODDIAD - PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990**
**RHEOLIADAU CYNLLUNIO TREF A GWLAD (COED) 1999**
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**TIR WRTH TAFARN Y GELYN, YR WYDDGRUG**

**GORCHYMYN CADWRAETH COED RHIF. 2/2002**

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Adroddiad ar y Gorchymyn uchod a phenderfynu a ddylid ei gadarnhau.

**2. Cefndir**

2.1 Gosodwyd Gorchymyn ( Tree Preservation Order ) ar y lleoliad (atodir copi o'r cynllun) ar 31 Mai, 2002.

2.2 Y cyfiawnhad yw bod y coed yn fygythiad yn dilyn torri llawer ohonynt ar y safle ac ymyraeth y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r coed ffiniol wedi eu cadw ac yn werth eu gwarchod.

**3. Gwrthwynebiad**
Dim i'r ardal

**4. Cefnogaeth i'r Gorchymyn**

Cafwyd cais gan Gyngor Cymunedol Llanferres oedd yn bryderus am y nifer fawr o goed sydd o fewn y safle sydd wedi eu torri. Derbyniwyd llythyr o gefnogaeth gan berchennog yr eiddo 'Cornerways'.

**5. I GLOI**

Ystyrir bod y coed yn dod o dan y Gorchymyn i'w gwrachod am eu gwerth i'r safle.

**6. Argymhelliad**

Cadarnhau Gorchymyn ( Tree Preservation order) rhif. 2/2002 Tafarn y Gelyn.

**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**2il HYDREF 2002**
**Eitem Agenda Rhif 4**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**
**DRAFFT YMGYNGHORI CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL GWYNEDD**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ymateb y Cyngor i Fersiwn Drafft Ymgynghori Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Gwynedd.

## 2. CEFNDIR

2.1 Gwahoddwyd Cyngor Sir Ddinbych i wneud sylwadau ar fersiwn Drafft Ymgynghori CDU Gwynedd (cyfnod y cynllun 2001-2016) erbyn 20 Hydref. Gan fod Sir Ddinbych yn ffinio ar ran fach o Wynedd yn ne-orllewin y sir, mae'r sylwadau wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion cynllunio strategol y Cynllun.

2.2 Mae CDU Gwynedd ond yn cynnwys yr ardaloedd hynny y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, sydd â'i CDU ei hun. Mae'r Parc Cenedlaethol i gyfrif am 63% o arwynebedd tir Gwynedd ond dim ond 19% o boblogaeth y sir.

## 3. ASESIAD

3.1 Mae CDU Gwynedd yn nodi'r tir canlynol ar gyfer cyflogaeth a thai am y cyfnod o 15 mlynedd 2001-2016:

- 92 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer diwydiant cyffredinol a 26 hectar ar gyfer safleoedd cyflogaeth uchel eu hansawdd, sy'n cynnwys dosraniadau blaenorol a dosraniadau newydd a chaniatâd cynllunio sydd mewn bod;
- gofyniad ychwanegol am anheddau o 1265 o anheddau;

3.2 Ar ôl ei asesu mae'r prif bwyntiau yn y cynllun fel a ganlyn:
Materion Allweddol:
Cefnogir nodau ac amcanion CDU Gwynedd at ei gilydd, gan eu bod yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r materion allweddol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun. Dyma rai o'r rhain: all-ymfudiad pobl ifanc a mewn-ymfudiad pobl hþn, yr iaith Gymraeg, dirywiad yn yr economi wledig a diogelu'r amgylchedd uchel ei ansawdd.
Prif nod CDU Gwynedd yw:
*" Darparu fframwaith ar gyfer creu a chynnal cymunedau cynaladwy".*

3.3 Ym mhara 1.17 y cyflwyniad dywedir bod y cynllun wedi'i baratoi mewn ffordd gadarnhaol, serch hynny mae mwyafrif y polisïau wedi'u fframio mewn termau negyddol hy "yn cael eu gwrthod" yn hytrach nag yn cael eu caniatáu yn amodol ar gwrdd â rhai meini prawf.

3.4 Mae strategaeth y CDU yn cyflwyno'r cysyniad o 'Ddalgylchoedd Dibyniaeth (DD)', diben hyn yw darparu strategaeth ofodol ar gyfer cyfeirio datblygiad wedi'i seilio ar batrwm defnydd cymunedau o ganolfannau gwasanaeth. Mae'r sir gyfan, yn cynnwys yr ardaloedd hynny o fewn y Parc Cenedlaethol, wedi'i rhannu'n 8 DD. Y strategaeth ddatblygu ar gyfer DD Bangor yw 'cynnal a thwf' gyda'r 7DD sy'n weddill yn cael eu

dynodi fel ardaloedd ‘cynnal ac adfywio’. Mae cynnwys ardaloedd y tu mewn a’r tu allan i’r Parc Cenedlaethol mewn amrywiol fannau drwy’r CDU i gyd yn gallu arwain at ddryswch ac yn aml yn ei gwneud hi’n aneglur pa ffigurau sy’n ymwneud ag ardal CDU Gwynedd yn unig.

3.5 **Tai** - mae’r polisïau tai ond yn caniatáu adeiladu newydd ar gyfer angen cyffredinol y farchnad ar safleoedd sydd wedi’u neilltuo, rhaid i bob datblygiad arall, yn cynnwys addasu adeiladau, fodloni meini prawf angen lleol manwl. Mae’r meini prawf yn fanwl iawn a gallant fod yn anodd i’w gweithredu gan y bydd amgylchiadau lleol yn amrywio ym mhob achos. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gweithwyr allweddol a fydd efallai yn dymuno symud i mewn i’r ardal nac ar gyfer pobl leol a fydd efallai yn dymuno symud rhwng DDau. Dichon y bydd yn rhaid newid y polisïau hyn o ystyried safiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bolisïau anghenion lleol Sir Benfro. Ni roddir unrhyw eglurhad ynghylch sut y gall y stoc dai bresennol gyfrannu at anghenion tai fforddiadwy. Ni nodir y broses yn ôl pa un y neilltuwyd safleoedd tai ac ni wneir unrhyw lwfans ar gyfer safleoedd na ddônt ymlaen efallai o fewn cyfnod y cynllun.

3.6 **Polisi CH6 - Ail Gartrefi** – dywed y polisi hwn y bydd cynigion ar gyfer ail gartrefi yn cael eu gwrthod mewn cymunedau ble mae 10% neu fwy o’r stoc bresennol yn ail gartrefi. Mae hi’n anodd gweld sut y gellir gorfodi’r polisi hwn yn erbyn unrhyw beth ond adeiladu newydd gan fod cartrefi cyntaf ac ail gartrefi yn dod o fewn yr un dosbarth defnydd ar hyn o bryd ac nid oes angen caniatâd i newid o un defnydd i’r llall. Gallai’r polisi wrthdaro hefyd â pholisïau D13-15 sy’n caniatáu adeiladu tai newydd ac addasu tai yn llety gwyliau yn amodol ar rai meini prawf.

3.7 **Polisi CH 8 - Anheddau Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriadau Gwledig** – ni all safle fod yn safle 'eithriad' os yw wedi’i leoli o fewn ffin ddatblygu. Dylai’r ymadrodd “o fewn neu” gael ei ddileu o’r polisi i sicrhau cydymffurfiad â pholisi CH7.

3.8 **Polisi B10 - Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd** – nid yw hi’n glir ble mae’r dynodiadau hyn yn gorwedd yn hierarchaeth dynodiadau tirwedd. Dywed y polisi fod yr ardaloedd wedi’u clustnodi ond nid ydynt yn ymddangos ar unrhyw un o’r mapiau cynigion, heblaw map ardal y cynllun o fewn y testun, gall hyn arwain at ddryswch o ran eu lleoliad a’u statws. Mae un ardal o’r fath yn ffinio ar Sir Ddinbych yn ardal Llandrillo a bydd darn yn ffinio ar y dynodiad Ardal o Harddwch Eithriadol yn yr ardal yma.

3.9 Nid yw llyfr y cynlluniau mewnosod yn cynnwys map sirol allweddol sy’n amlinellu dynodiadau tir pwysig megis AHNE, ardaloedd Cadwraeth Tirwedd ayb, mae yna fap bychan o fewn y prif ddogfen testun polisi ond mae hwn yn aneglur ac mae ei leoliad yn ei wneud yn anodd i’w gysylltu â’r testun.

## 4. CASGLIAD

4.1 Cefnogir nodau, amcanion, polisïau a chynigion y Cynllun at ei gilydd. Mae’r sylwadau uchod ond yn cael eu codi i alluogi’r cynllun i adlewyrchu amrediad ehangach o faterion cynllunio perthnasol ac i wella eglurder y polisïau.

4.2 Cefnogir Cyngor Gwynedd wrth gyhoeddi Drafft Ymgynghori ei Gynllun Datblygu Unedol.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Mae'r argymhelliad fel a ganlyn:

"Derbyn yr adroddiad uchod fel ymateb Cyngor Sir Ddinbych i Ddrafft Ymgynghori CDU Gwynedd, heb godi unrhyw wrthwynebiadau."

**Pwyllgor Cynllunio**
**2 Hydref 2002**
**AGENDA. 5**

## Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio

# Dyddiad ymweliadau safle

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

**1.1** Cynghori Aelodau o ddyddiad tebygol Ymweliadau Safle y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. Dyddiad ymweliad safle**

**2.1** Ar ôl ymgynghori hefo'r Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol penderfynwyd mai dydd Llun, **7fed Hydref 2002** yw'r mwyaf addas. Trefnwyd y dyddiad hwn yn amodol .

**2.2** Cynghorir chi felly y cynhelir cyfarfod safle **dydd Llun 7fed Hydref 2002 (amser i'w gyhoeddi).**

**3. AELODAETH Y PANEL**

**3.1** Dibynnu ar gytbwysedd Gwleidyddol gan gynnwys Cadeirydd ac is Gadeirydd a'r Aelod(au) Lleol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1** **Bod Aelodau yn cytuno ar gynnal ymweliadau safle ddydd Llun 7fed Hydref 2002.**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**2 Hydref 2002**
**EITEM: 6**

# Penderfyniadau a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio o dan y Pwerau a ddirprwywyd 10 Awst 2002 - 13 Medi 2002

## Eitem er gwybodaeth

**Dyma restr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes o dan bwerau dirprwyedig. Os ydych yn dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog Achos os gwelwch yn dda.**

## <u>MATH O BENDERFYNIAD</u>

| | |
|---|---|
| **CANIATAU** | **caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **CYMERADWYO** | **cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CYDSYNIO** | **rhoi caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu gydsynio i hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD** | **dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal gadwraeth** |
| **PENDERFYNU** | **penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth o flaen llaw neu ei fod yn cael ei roi pan benderfynir ar y cais (gweithiau telecom ac amaethyddol penodol)** |
| **DAT. A GANIATEIR** | **canfyddwyd fod y cynnig yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais** |
| **TYNNU YN ÔL** | **y cais wedi'i dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd** |
| **GWRTHOD** | **gwrthod pob math o gais** |

**COPIAU AR GAEL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**